



Cyngor Tref Llangollen Town Council

IS-DDEDDFAU SGWÂR Y CANMLWYDDIANT

CENTENARY SQUARE BYELAWS

Datganiad Ysgrifenedig Cychwynnol o dan Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012

Initial Written Statement under the Local Government Byelaws (Wales) Act 2012

Trosolwg.

Diben yr ymgynghoriad hwn yw gwahodd sylwadau ar y materion sy'n codi ynglŷn â Sgwâr y Canmlwyddiant. Ac os mai mabwysiadu is-ddeddfau newydd, fyddai'n adlewyrchu'r gweithrediadau a'r gweithgareddau sy'n digwydd yn Sgwâr y Canmlwyddiant ar hyn o bryd, fyddai'r ffordd orau i Gyngor y Dref symud ymlaen.

Diogelu data.

Bydd yr holl ymatebion a dderbynnir gan Gyngor Tref Llangollen yn cael eu gweld yn llawn gan yr aelodau hynny o'r staff sy'n ymwneud â'r broses ymgynghori.

Gall Gyngor y Dref hefyd ddefnyddio'r wybodaeth a gesglir i gyhoeddi dogfennau dilynol sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol â'r ymgynghoriad hwn; fodd bynnag, ni fydd y Gyngor y Dref yn datgelu unrhyw wybodaeth personol megis enwau neu gyfeiriadau a allai beri adnabod unigolyn ar unrhyw gyfrif.

Os nad ydych am i'ch barn gael ei chyhoeddi, nodwch hynny yn eich ymateb.

Cefndir a gwybodaeth.

Cyngor Tref Llangollen ("Cyngor y Dref") yw perchnogion y darn o dir a elwir yn Sgwâr y Canmlwyddiant a nodir yn y cynllun sydd ynghlwm i'r ddogfen ymgynghori hon.

Yn unol â chymeriad hanesyddol a delwedd atyniadol a diddorol yr adeiladau cyfagos, cafodd y safle ei ailgynllunio i greu man cyhoeddus croesawgar a hygyrch sy'n wastad, yn ddiogel, yn rhydd o annibendod ac ar gael i nifer o ddarpar ddefnyddwyr. Mae cefnogi a gwella'r amgylchedd i gerddwyr yn allweddol i'w lwyddiant yn y dyfodol i ddenu pobl i'r ardal a'u cymell i ddefnyddio'r siopau cyfagos a busnesau eraill.

Overview.

This consultation is to invite views on the issues arising at Centenary Square and whether the adoption of new byelaws at Centenary Square, to reflect the current operations and activities that take place is the best way for the Town Council to proceed.

Data protection.

All responses received by Llangollen Town Council will be seen in full by staff members involved in the consultation process

The Town Council may also use the information gathered to publish subsequent documents both directly and indirectly linked to this consultation; however, the Town Council will never disclose any personal information such as names or addresses that could identify an individual.

If you do not wish for your opinions to be publicised, please state so in your response.

Background and information.

Llangollen Town Council ("the Town Council") are the owners of the area of land know as Centenary Square identified in the plan appended to this consultation document.

In keeping with the historic character, charm and interest of the adjacent buildings the site was redesigned to create a welcoming and accessible public space which is level, safe, uncluttered and available to a number of potential users. Supporting and enhancing the pedestrian environment is key to its future success in attracting people to come to the area and use the surrounding shops and other businesses.

Materion perthnasol ac Ymgynghori.

Mae Cyngor y Dref wedi buddsoddi yn natblygiad y Sgwâr fel gofod cymunedol sy'n cynnwys amrywiaeth o weithgareddau y gall pawb eu mwynhau. Cwblhawyd prif ddatblygiad y Sgwâr ym mis Gorffennaf 2018. O ganlyniad i'r prosiect datblygu hwn mae Sgwâr y Canmlwyddiant bellach yn denu grwpiau amrywiol o unigolion

Ym mis Mehefin 2020, rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i adroddiad ynghylch parcio beiciau modur ar Sgwâr y Canmlwyddiant. Tra bod Rhan 244 o Reolau'r Ffordd Fawr yn nodi "NA DDYLECH barcio'n rhannol neu'n gyfan gwbl ar y palmant yn Llundain ac na ddylech wneud hynny yn unrhyw le arall oni bai bod arwyddion yn caniatáu hynny", mae beicwyr yn anwybyddu hyn. O'r herwydd, mae parcio ar Sgwâr y Canmlwyddiant yn parhau i fod yn broblem, yn creu pryder ac yn gwrthdaro ag iechyd a diogelwch cerddwyr sy'n defnyddio'r sgwâr.

Nid yw pwerau presennol Cyngor y Dref i reoli a gweithredu'r Sgwâr yn ddigonol i ymdrin â pharcio cerbydau yno. O'r herwydd, cytunodd yr Aelodau mai'r ateb fyddai mabwysiadu is-ddeddf briodol gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i barcio unrhyw gerbydau ar y sgwâr. Byddai torri'r is-ddeddf honno wedyn yn drosedd a fyddai'n agored i ddirwy ar gollfarn ddiannod.

Byddai'r is-ddeddfau'n ymdrin â'r materion a ganlyn:-

- Dringo.
- Gwarchod Bywyd Gwyllt rhag Tanau
- Taflegrau
- Ceffylau
- Cerbydau
- Gemau pêl
- Modelau awyrennau
- Awyrennau, gleiderau crog a balw̃ns aer poeth
- Synwryddion metel

O dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol (Is-ddeddfau) Cymru 2012 mae'n ofynnol i Gyngor y Dref ymgynghori â phobl a sefydliadau sydd â diddordeb cyn ffurfio is-ddeddfau.

Issues and Consultation.

The Town Council has invested in the development of the Square into a community space that accommodates a range of activities and can be enjoyed by all. The capital development of the Square was completed in July 2018. As a result of this development project Centenary Square now attracts various groups of individuals.

In June 2020, Members considered a report on the regarding the parking of motorcycles on Centenary Square. Whilst Part 244 of the Highway Code states that "You MUST NOT park partially or wholly on the pavement in London and should not do so elsewhere unless signs permit it", riders ignore this and the parking on Centenary Square continues to be a problem and of concern and conflicts with the health and safety of pedestrians using the square.

The current powers the Town Council has to control and operate the Square are not sufficient to deal with parking of vehicles on the Square and therefore, Members agreed that the best way forward was to adopt an appropriate bylaw including, but not limited to, parking of any vehicles on the square. The contravention of said byelaw would then be an offence liable on a summary conviction to a fine.

The byelaws would cover the following issues: -

- Climbing.
- Protection of wildlife Fires
- Missiles
- Horses
- Vehicles
- Ballgames
- Model aircraft
- Aircraft, hang gliders and hot air balloons.
- Metal detectors

Under the provisions of the Local Government (Byelaws) Wales Act 2012 the Town Council is required to consult with interested persons and organisations prior to making byelaws.

Felly, mae Cyngor y Dref wedi ymrwymo i gynnwys ein trigolion yn y penderfyniadau hynny sy'n effeithio arnynt. Rydym am wybod a ydych wedi cael unrhyw broblemau wrth ddefnyddio Sgwâr y Canmlwyddiant.

Y broses ymgynghori.

Bydd y broses ymgynghori yn dechrau ddydd Llun 5 Mehefin 2023 ac yn cael ei chwblhau erbyn 31 Hydref 2023.

Sylwer: ni fydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiad.

Dim ond yn ystod cyfnod yr hysbysiad cyhoeddus y gellir cofrestru unrhyw wrthwynebiad.

The Town Council is therefore committed to involving our residents in the decisions that affect them. We want to find out whether you have experienced any problems in your use of the Centenary Square.

The consultation process.

The consultation process will begin on Monday 4 September 2023 and be completed by 31 October 2023.

Please note that responses to consultation will not be counted as objections.

Objections can only be registered during the public notice period.

APPENDIX / ATODIAD

